# Polisi Cerbydau heb eu Trethu

## F.1 01/01/2019

*Cadw Caerdydd i Symud*








**Cyngor Caerdydd**

www.caerdydd.gov.uk

*Polisïau i greu dinas ddiogel a bywiog i gadw Caerdydd i symud*

# Cynnwys


Amlinelliad o'r Polisi 1

Cyflwyniad 1

Gorfodi Cerbydau Heb eu Trethu 1

Blaenoriaethau Corfforaethol 1

Deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau 1

Clampio Cerbydau heb eu Trethu a'u Symud Ymaith 3

Gweithio gyda'r DVLA 3

Adrodd am gerbyd sydd heb ei drethi 3

Cerbydau y gellir eu clampio a'u symud ymaith 4

Gorfodi ar dir preifat 4

Y Broses Glampio 5

Sut i ryddhau clamp 5

Y broses symud cerbyd ymaith yn syth 6

Sut i ryddhau cerbyd sydd wedi ei symud ymaith 6

Sicrwydd 8

Eiddo wedi ei adael mewn cerbyd 8

Anghydfodau 8

# Amlinelliad o’r Polisi

## Cyflwyniad

Fel yr awdurdod traffig, mae gan y Cyngor nifer o gyfrifoldebau a dyletswyddau i reoli’r rhwydwaith priffyrdd a thrafnidiaeth a chadw Caerdydd i symud.

Nod y polisi hwn yw nodi, mewn ffordd glir a thryloyw, ymagwedd Cyngor Caerdydd at glampio cerbydau heb eu trethu a’u symud ymaith. O bryd i'w gilydd, bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol ac unrhyw newidiadau mewn arferion gwaith felly gallai newid. Mae'n dal yn berthnasol yn ei fersiwn bresennol nes iddo gael ei ddisodli neu ei ddiddymu.

## Gorfodi Cerbydau Heb eu Trethu

Gall y Cyngor gymryd camau gorfodi yn erbyn cerbydau nad ydynt wedi’u trethu yn unol â’r Rheoliadau Dyletswydd Trethu (Clampio, Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau) 1997 pan fo pwerau datganoledig wedi'u rhoi gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Nod y polisi hwn yw esbonio'r berthynas rhwng y Cyngor a'r DVLA a sut mae ein cyd-ymdrechion yn helpu i leihau achosion o gerbydau heb eu trethu ar y briffordd.

## Blaenoriaethau Corfforaethol

Mae'r polisi hwn yn cyfrannu at nodau'r Cyngor i greu dinas ddiogel a bywiog ac i gadw Caerdydd i symud drwy ddileu peryglon a rhwystrau i'r rhwydwaith trafnidiaeth. Mae'n ategu ymhellach y camau gorfodi sifil mewn perthynas â thramgwyddau traffig ffyrdd a mesurau gorfodi a hyrwyddir gan y DVLA yn erbyn cerbyd heb ei drethu. At ddibenion y polisi hwn cymerir bod unrhyw gyfeiriad at y "cyngor" yn golygu Cyngor Caerdydd.

## Deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau[1]

- Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau 1986

[1] Mae unrhyw gyfeiriad at ddeddf Seneddol, darpariaeth statudol, rheoliad neu offeryn statudol yn cynnwys cyfeiriad at y ddeddf honno, darpariaeth, rheoliad neu offeryn fel y'i diwygiwyd, y'i hestynnwyd neu y'i hailddeddfwyd.

- Rheoliadau'r Dreth Car (Clampio, Symud a Gwaredu Cerbydau) 1997
- DVLA: Cod Ymarfer a nodiadau Cyfarwyddyd i'r rhai a awdurdodwyd gan y DVLA i ddelio â cherbydau nad ydynt wedi'u trethu 2017
- Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984

# Clampio Cerbydau heb eu Trethu a'u Symud Ymaith

Oni bai ei fod wedi ei eithrio, rhaid i gerbyd, yn ôl y gyfraith,[2] fod wedi ei drethu os yw i gael ei ddefnyddio neu ei gadw ar briffordd. Dan Reoliadau Treth Car (Clampio, Symud a Gwaredu Cerbydau) 1997, gall y DVLA roi awdurdod i sefydliad i roi camau gweithredu ar waith yn erbyn cerbydau sydd heb eu trethu.

Mae cysylltiad ym marn y cyhoedd rhwng cerbydau sydd heb eu trethu a throsedd neu fwriad i weithredu'n droseddol. Mae llawer o fuddion i weithredu'n orfodol yn erbyn cerbydau heb eu trethu; yn cynnwys gwella'r amgylchedd lleol, lleihau'r cyfle ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a llosgi bwriadol, ac atal gweithredoedd troseddol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio cerbydau heb eu trethu. Dylai hefyd annog pobl i aildrwyddedu eu cerbydau'n briodol.

## Gweithio gyda'r DVLA

Mae enghreifftiau o bobl yn osgoi talu'r dreth car wedi codi o 0.6% i 1.8% ers 2014[3], sy'n cyfateb â cholled bosibl o £107 miliwn i'r Llywodraeth.

Mae mesurau gorfodi yn cyflawni rôl bwysig yn y gwaith o fynd i'r afael â hyn a sicrhau bod pob cerbyd wedi ei drethi'n gywir ac yn gyfreithlon. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r DVLA ar bob cam o'r broses orfodi yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd arnom a Chod Ymarfer a Nodiadau Canllaw 2017 ar gyfer y sawl sydd wedi eu hawdurdodi gan y DVLA i ddelio â cherbydau nad ydynt wedi eu trethu.

## Adrodd am gerbyd sydd heb ei drethi

Gall unrhyw un ymweld â www.gov.uk/check-vehicle-tax i weld a ydy cerbyd wedi ei drethi'n gywir neu os yw wedi ei gofrestru fel cerbyd oddi ar yr heol (SORN). Sylwer y gall gymryd hyd at 5 niwrnod gwaith i ddiweddaru'r cofnodion hyn[4].

---

[2] Deddf Treth a Chofrestru Cerbydau 1994
[3] Pwerau awdurdodau lleol a Datganoledig, seminar hyfforddi
[4] https://www.gov.uk/check-vehicle-tax

Os oes cadarnhad bod cerbyd heb ei drethi gellir adrodd wrth y Cyngor amdano ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk.. Bydd y Cyngor wedyn yn ymchwilio ac os ceir cadarnhad nad yw’r cerbyd wedi ei drethi’n gywir, gellir cychwyn camau gorfodi pan fo’n bosibl gwneud hynny. Efallai y bydd adegau lle na fydd camau gorfodi’n bosibl, hyd yn oed pan nad yw’r cerbyd wedi ei drethi.

## Cerbydau y gellir eu clampio a’u symud ymaith

Dyma’r cerbydau a’r ardaloedd mae’r polisi hwn yn berthnasol ar eu cyfer:

- Cerbydau ar heolydd cyhoeddus[5] ac sydd heb eu trethu neu sy’n SORN
- Cerbydau oddi ar yr heol (heblaw am mewn rhai amgylchiadau eithriadol fel y nodir yn y polisi hwn) ac sydd heb eu trethu

Nid yw’r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer cerbydau sydd:

- Wedi eu gadael
- Yn cael eu defnyddio at unrhyw bwrpas gan y gwasanaethau brys
- Yn cael eu defnyddio dan drwydded fasnachu ddilys
- Wedi eu heithrio rhag gorfod cael treth cerbydau
- Cerbydau gwasanaethau cyhoeddus sy’n cael eu defnyddio i gludo teithwyr am dâl neu wobr
- Cael eu defnyddio gan gwmnïau cyfleustodau at anghenion busnes statudol dilys; neu’n
- Cael eu defnyddio gan y Swyddfa Bost mewn cysylltiad â dosbarthu neu gasglu pecynnau post ac sydd â’r geiriau “Swyddfa’r Post” neu “Post Brenhinol” yn glir ar bob ochr i’r cerbyd.

## Gorfodi ar dir preifat

Gellir clampio neu symud ymaith unrhyw gerbyd sy’n tramgwyddo oddi ar yr heol heblaw pan fo cerbyd yn cael ei gadw ar safle busnes masnachwr neu brofwr cerbydau neu pan fo cerbyd wedi ei barcio oddi ar yr heol ar dir sy’n gysylltiedig â phreswylfa.

---

[5] “Ffordd y mae modd ei thrwsio ar gost y cyhoedd”, VERA 1994 gan gynnwys ymylon, palmentydd, cilfannau a mannau parcio.

Ni fydd y Cyngor yn clampio nac yn symud ymaith unrhyw gerbydau sydd oddi ar yr heol yn y lleoliadau canlynol:

- Safleoedd ysbytai/meysydd awyr/ysgolion
- Safleoedd Colegau/Prifysgolion/Lluoedd Arfog, oni bai bod caniatâd wedi ei roi o flaen llaw gan y colegau/prifysgolion neu ganghennau Lluoedd Arfog perthnasol.

## Y Broses Glampio

**Tabl 3. Crynodeb o'r broses o glampio cerbydau heb eu trethu neu SORN**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad wedi ei dderbyn am gerbyd heb ei drethi neu wedi ei weld gan ANPR** | Statws y cerbyd yn cael ei wirio i weld a oes ganddo dreth gyfredol ac a ellir gweithredu camau gorfodi |
| **Cerbyd yn cael ei ansymud (ei glampio)** | Os gellir gweithredu camau gorfodi a'r cerbyd heb ei drethi, neu os yw ar yr heol gyda SORN, gall y Cyngor neu gontractwr cymeradwy glampio'r cerbyd. Dylid gosod y clamp o fewn awr i'r gwiriad sy'n cadarnhau y gellir gweithredu camau gorfodi. |
| **Logio'r cerbyd** | Lluniau'n cael eu tynnu o'r cerbyd heb ei drethi/SORN a chwblhau adroddiad archwilio. Cwblhau adroddiad tramgwydd hefyd a'i drosglwyddo i'r DVLA. |
| **Symud ymaith** | Os na cheir taliad o fewn 24 awr i'r amser y gosodwyd y clamp, gellir symud y cerbyd i fan storio. |
| **Hysbysu'r DVLA** | Bydd y Cyngor yn hysbysu'r DVLA bod y cerbyd wedi ei symud ymaith a byddan nhw wedyn yn ysgrifennu at y perchennog cofrestredig o fewn 24 awr i'w hysbysu am hyn |
| **Storio** | Bydd cerbydau sydd wedi eu symud ymaith yn cael eu storio am o leiaf 14 diwrnod os ydynt gwerth dros £500 neu 7 diwrnod os yw eu gwerth dan £500 |
| **Rhyddhau, neu;** | Os darperir y dulliau adnabod, tâl a sicrwydd perthnasol gellir hawlio'r cerbyd a'i ryddhau |
| **Gwaredu** | Os nad yw'r cerbyd yn cael ei hawlio o fewn y cyfnod amser priodol gellir ei sgrapio neu ei ddatgymalu neu ei arwerthu, yn dibynnu ar ei werth |

## Sut i ryddhau clamp

Pan fod clamp yn cael ei osod bydd hysbysiad yn cael ei roi ar ffenestr flaen neu ochr y gyrrwr. Bydd hwn yn egluro sut i dalu'r ffi ryddhau a chael y clamp wedi ei symud o'r cerbyd. Ni fydd clamp yn cael ei ryddhau tan i daliad llawn gael ei wneud yn llwyddiannus.

## Y broses symud cerbyd ymaith yn syth

Mewn rhai achosion, efallai y bydd symud cerbyd yn syth yn fwy priodol na’i glampio i gychwyn, os yw’r cerbyd wedi ei barcio’n beryglus er enghraifft.

| Tabl 4. Crynodeb o’r broses i symud cerbydau heb eu trethu neu SORN ymaith yn syth | |
|---|---|
| **Adroddiad wedi ei dderbyn am gerbyd heb ei drethu neu wedi ei weld gan ANPR** | Statws y cerbyd yn cael ei wirio i weld a oes ganddo dreth gyfredol ac a ellir gweithredu camau gorfodi |
| **Logio’r cerbyd** | Lluniau’n cael eu tynnu o’r cerbyd heb ei drethi/SORN a chwblhau adroddiad archwilio. Cwblhau adroddiad tramgwydd hefyd a’i drosglwyddo i’r DVLA. |
| **Symud ymaith** | Symud y cerbyd i fan storio |
| **Hysbysu’r DVLA** | Bydd y Cyngor yn hysbysu’r DVLA bod y cerbyd wedi ei symud ymaith a byddan nhw wedyn yn ysgrifennu at y perchennog cofrestredig o fewn 24 awr i’w hysbysu am hyn |
| **Storio** | Bydd cerbydau sydd wedi eu symud ymaith yn cael eu storio am o leiaf 14 diwrnod os ydyn nhw gwerth dros £500 neu 7 diwrnod os yw eu gwerth dan £500 |
| **Rhyddhau, neu;** | Os darperir y dulliau adnabod, tâl a sicrwydd perthnasol gellir hawlio’r cerbyd a’i ryddhau |
| **Gwaredu** | Os nad yw’r cerbyd yn cael ei hawlio o fewn y cyfnod amser priodol gellir ei sgrapio neu ei ddatgymalu neu ei arwerthu, yn dibynnu ar ei werth |

## Sut i ryddhau cerbyd sydd wedi ei symud ymaith

Os yw’r person sydd â gofal dros y cerbyd yn credu bod y cerbyd wedi ei symud ymaith am fod heb ei drethu, gall gysylltu â’r Cyngor a all ddweud lle mae’r cerbyd yn cael ei storio a sut i gael y cerbyd yn ôl. Mae dau fan storio yng Nghaerdydd. Maen nhw yn:

**Depo Ipswich Road**
Ipswich Road, Caerdydd CF23 9AQ.

**Depo Heol Penarth**
Uned 14, Ystâd Fasnachu Llandochau, Caerdydd, CF11 8RR

Bydd perchennog cofrestredig y cerbyd hefyd yn derbyn llythyr gan y DVLA yn ei hysbysu o leoliad y man storio ac am y camau nesaf i’w gweithredu.

Pan fydd cerbyd yn cael ei symud ymaith bydd yr Heddlu hefyd yn cael eu hysbysu fel eu bod yn ymwybodol. Os oes adroddiad bod y cerbyd wedi ei ddwyn, byddan nhw'n gallu rhoi gwybod i'r cwsmer bod ei gerbyd wedi ei symud ymaith a'i storio a lle i ryddhau'r cerbyd. Ni ddylid ffonio 999 gan mai ar gyfer argyfyngau'n unig y mae'r rhif hwn.

Bydd angen talu'r ffioedd priodol[6] i ryddhau cerbyd, sef:

| **Eitem** | | **Ffi ryddhau** | **Ffi Sicrwydd** |
|---|---|---|---|
| **1** | O fewn 24 awr i'r drosedd | £100 | £160 i feiciau modur, cerbydau teithwyr ysgafn a cherbydau nwyddau ysgafn<br>£330 i fysus, cerbydau nwyddau, cerbydau achub a cherbydau cludiant<br>£700 i gerbydau eithriadol megis lorïau mawr neu goetsis |
| **2** | Rhyddhau o'r pownd 24 awr neu fwy ar ôl y drosedd | £200 | |
| **3** | Storio | £21 am bob diwrnod llawn yn y man storio (os symudir ymaith yn syth ni chodir tâl am y 24 awr gyntaf) | |

Rhaid talu'r ffioedd yn llawn cyn i gerbyd gael ei ryddhau.

Rhaid darparu Tystysgrif Cofrestru Cerbyd (V5C) a dull adnabod dilys, megis trwydded yrru DU gyfredol neu basbort, er mwyn rhyddhau cerbyd. Rhaid i'r cyfeiriad ar y V5C fod yr un peth â'r cyfeiriad ar y dull adnabod. Os yw'r cyfeiriadau'n wahanol bydd angen tystiolaeth bellach megis bil cyfleustod neu ddatganiad banc wedi ei ddyddio o fewn y tri mis diwethaf.

Os na ellir darparu V5C rhaid darparu dogfennau ychwanegol i ddangos perchnogaeth, megis bil gwerthiant neu dystysgrif MOT. Bydd y pownd yn darparu ffurflen 'Cais am dystysgrif gofrestru (V62)' y bydd yn rhaid ei chwblhau a rhaid talu'r ffioedd sy'n gysylltiedig â'r ddogfen hon. Bydd y pownd wedyn yn anfon y cais i'r DVLA.

Os na chyflawnir yr amodau hyn, ni fydd y cerbyd yn cael ei ryddhau mewn unrhyw amgylchiadau.

[6] Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2013.

## Sicrwydd

Gall cwsmeriaid sy'n talu ffi sicrwydd hawlio'r arian yn ôl gan y Cyngor drwy gyflwyno derbynneb treth o fewn 15 diwrnod i ryddhau'r cerbyd yn gyfreithlon. Dim ond i'r sawl a dalodd yn wreiddiol y gellir talu'r ffi sicrwydd yn ôl. Nid yw datgan cerbyd fel SORN yn rhoi hawl i ad-daliad.

## Eiddo wedi ei adael mewn cerbyd

Os oes eiddo wedi ei adael yn y cerbyd, gall y perchennog ei gasglu o fewn **28** diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cerbyd ei storio. Bydd angen ei gasglu o'r pownd perthnasol. Os na chesglir yr eiddo o fewn y cyfnod hwn byddan nhw'n cael eu dinistrio'n ddiogel.

## Anghydfodau

Fel yr awdurdod gorfodi, rhaid i Gyngor Caerdydd ymateb i gwynion yn ymwneud â chlampio neu symud cerbydau heb eu trethu ymaith. Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y gellir cwyno yn erbyn camau gorfodi:

1) Pan fo perchennog wedi talu'r ffioedd i ryddhau cerbyd ac yn honni bod y cerbyd wedi ei drethi pan gychwynnwyd y camau gorfodi, neu;
2) Pan fo perchennog wedi talu'r ffioedd i ryddhau cerbyd ac yn honni na chadwyd at Reoliadau Treth Car (Clampio, Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau) 1997.

Os na chadwyd at y meini prawf uchod yn llawn, mae cwyn yn debygol o fod yn aflwyddiannus. Rhaid gwneud unrhyw gwyn yn ysgrifenedig i:

Cyngor Caerdydd
Cerbydau heb eu Trethu
Ystafell 301
Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW.